Rhif: **WG22910**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Cynlluniau datblygu ysgolion – cynigion ar gyfer cyflwyno rheoliadau

Dyddiad cyhoeddi: **Hydref 2014**

# Cynlluniau datblygu ysgolion – cynigion ar gyfer cyflwyno rheoliadau

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Mae'r ddogfen hon wedi'i hanelu at gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (yn cynnwys unedau cyfeirio disgyblion a meithrinfeydd) yng Nghymru. Bydd o ddiddordeb hefyd i benaethiaid a staff ysgolion, Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant EM, awdurdodau lleol a chonsortia addysg. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a ddaeth i law i ymgynghoriad ar gynigion i gyflwyno rheoliadau i lywodraethu sut y caiff cynlluniau datblygu ysgolion eu cynhyrchu a'u hadolygu. |
| **Camau i'w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Cynlluniau Datblygu Ysgolion<br>Yr Is-adran Safonau Ymarferwyr a Datblygu Proffesiynol<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>e-bost: PracticeReviewandDevelopment@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Dogfen ymgynghori – *Cynlluniau datblygu ysgolion – cynigion ar gyfer cyflwyno rheoliadau* (2014)<br>Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014<br>Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2007 – fel y'u diwygiwyd<br>Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011 – fel y'u diwygiwyd<br>Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011 – fel y'u diwygiwyd<br>Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011 |

ISBN digidol 978 1 4734 2252 0
© Hawlfraint y Goron 2014
WG22910

# Cynnwys

Cyflwyniad .......... 2
Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad .......... 3
Y camau nesaf .......... 11
Atodiad: Rhestr o'r ymatebwyr .......... 12

# Cyflwyniad

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar gynigion i gyflwyno rheoliadau sy'n datgan ei bod yn ofynnol i bob ysgol gyflwyno ei blaenoriaethau strategol ar gyfer gwella perfformiad yr ysgol, a sut maent yn bwriadu rhoi sylw iddynt, mewn dogfen gynllunio unigol; y Cynllun Datblygu Ysgol (CDY).

Bu'r ymgynghoriad ar waith rhwng 28 Ebrill a 21 Gorffennaf 2014. Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnal yn electronig a chafodd ei hyrwyddo ymhlith cynulleidfa eang, yn cynnwys ysgolion, Llywodraethwyr Cymru, undebau athrawon a staff cymorth, Estyn ac awdurdodau lleol.

Cafwyd cyfanswm o 24 ymateb. Ceir rhestr o'r ymatebwyr yn yr Atodiad.

Dyma ddosbarthiad sefydliadol o'r ymatebwyr:

| | |
|---|---|
| Ysgolion ac ymarferwyr | 17% |
| Undebau athrawon a staff cymorth | 20% |
| Cyrff proffesiynol a chenedlaethol | 29% |
| Consortia ac awdurdodau lleol | 17% |
| Arall | 17% |

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r sylwadau a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ac mae'n nodi ymateb Llywodraeth Cymru. Mae'r holl sylwadau wedi eu hystyried yn llawn. Fodd bynnag, roedd rhai o'r sylwadau y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad ac er y gwnaethpwyd pob ymdrech i gysylltu'r ymatebion hyn â phrif themâu'r ymgynghoriad, ni fu hyn yn bosibl bob tro.

## Trosolwg o’r ymatebion i’r ymgynghoriad

**Cwestiwn 1** – Ydych chi’n cytuno â’r cynigion i wneud y prosesau cynllunio strategol a phennu targedau yn fwy effeithlon fel bod y CDY yn cynnwys yr holl ddogfennau cynllunio strategol eraill? (Gweler adran 4.)

| Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno |
|---|---|---|
| 20 | 0 | 4 |
| 83% | 0% | 17% |

**Trosolwg o’r ymatebion:**

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i wneud y prosesau cynllunio yn fwy effeithlon a phennu targedau strategol a bod y CDY yn cynnwys yr holl ddogfennau cynllunio strategol eraill. Nododd llawer o ymatebwyr y bydd hyn yn lleihau dyblygu a biwrocratiaeth.

Roedd rhai ymatebwyr, er yn cytuno â'r cynnig, yn dweud na ddylid gor-ragnodi a mynd yn rhy gaeth. Nododd dau ymatebydd y byddent yn croesawu canllawiau. Nid oedd un ymatebydd yn cytuno â chael y cynllun datblygu staff yn rhan o'r CDY.

**Sylwadau penodol a gafodd eu cynnwys:**

- Ysgolion ac ymarferwyr

  *Rwy’n cytuno â gwneud pethau’n fwy effeithlon. Byddwn yn anghytuno â bod yn haearnaidd am fformat, cylchred etc.*

  *Rydyn ni’n poeni y gallai’r CDY fynd yn rhy anhylaw.*

- Undebau athrawon a staff cymorth

  *Rydyn ni’n cefnogi’r cynnig y dylai’r CDY gynnwys unrhyw ddogfennau cynllunio strategol eraill.*

  *Mae’n hen bryd symud i un cynllun sengl ac felly mae hyn i’w groesawu’n fawr.*

*Er mwyn i'r cynigion hyn fod yn rhai gwerth chweil, bydd angen iddynt ddylanwadu ar ymddygiad.*

- Cyrff Proffesiynol a Chenedlaethol

    *Mae'n gall gwneud y broses o gynllunio'n strategol a phennu targedau yn fwy effeithlon.*

    *Dylai'r rheoliadau nodi'n glir beth a ddisgwylir gan ysgolion unwaith maen nhw wedi cael arolwg ac esbonio'n glir y disgwyliad y dylai'r CDY weithredu fel cynllun gweithredu ar ôl arolwg.*

- Consortia ac awdurdodau lleol

    *Yn croesawu'r ffaith mai'r cynllun datblygu ysgol fydd y ddogfen cynllunio strategol unigol.*

    *Bydd y cyfle i ysgolion gysylltu'r CDY â'r cynllun a nodi'r ffynhonnell gyllido er mwyn diwallu'r angen hwn yn gam pwysig ymlaen.*

    *Mae'r angen i ddefnyddio'r cynllun gwella sengl fel y canolbwynt ar gyfer her a chefnogaeth allanol yn llawn mor bwysig.*

- Arall

    *Taclusach a haws i'r rheiny sy'n cynhyrchu'r cynlluniau a'r rhai sy'n eu darllen.*

    *Dyna ddylai fod yn wir beth bynnag!*

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Bydd y Rheoliadau'n mynd rhagddynt fel y cawsant eu drafftio.

**Cwestiwn 2** – Ydych chi'n cytuno â'r rhestr o gynnwys gofynnol arfaethedig? (Gweler adran 5.)

| Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno |
|---|---|---|
| 12 | 4 | 8 |
| 50% | 17% | 33% |

**Trosolwg o'r ymatebion:**

Roedd hanner yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnwys gofynnol arfaethedig. Roedd tri o'r rhai a oedd yn cytuno yn dweud y dylai'r CDY gael ei adolygu'n amlach; awgrymwyd dwywaith y flwyddyn a bob tymor.

O'r pedwar ymatebydd a oedd yn anghytuno, roedd un yn teimlo na ddylid pennu cynnwys gofynnol. Roedd un ymatebydd a oedd yn anghytuno â'r cynnwys gofynnol arfaethedig yn awgrymu y gellid gweld hynny fel ymgais i lywio'r broses rheoli perfformiad tuag at system o 'dalu yn ôl canlyniadau' ac awgrymodd y dylai'r cyfeiriadau at 'dargedau' a 'chanlyniadau disgwyliedig' gael eu diwygio i 'amcanion' a 'chanlyniadau a ragwelir'.

O'r ymatebwyr yn y categori 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno', dywedodd tri fod cynnwys manylion datblygiad proffesiynol y staff yn y CDY, er mwyn cyflawni blaenoriaethau a nodwyd, yn gam cadarnhaol. Teimlai ymatebydd arall fod gwneud manylion y strategaethau datblygu proffesiynol yn ofyniad gorfodol o'r CDY yn gosod y cyfrifoldeb gydag ysgolion a bod angen bod yn glir ynghylch y gefnogaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei darparu ar gyfer ysgolion.

Gofynnodd pum ymatebydd am newidiadau i'r cynnwys gofynnol: dywedodd un y byddent yn hoffi gweld diogelu a lles dysgwyr yn cael eu cynnwys a nododd y dylai gwaith partneriaeth gael ei gynnwys; byddai un yn hoffi i ysgolion gynnwys sut y byddant yn ymateb i gynlluniau strategol rhanbarthol yr iaith Gymraeg; awgrymodd un ymatebydd y dylai'r rheoliadau gael eu diwygio i gynnwys y gymuned lawer ehangach y mae rhai ysgolion yn ei gwasanaethu; byddai un arall yn hoffi gweld y defnydd o dir yr ysgol fel lleoliad dysgu yn cael ei gynnwys ac roedd un arall am fod yn fwy penodol o ran strwythur a chynnwys gofynnol y CDY.

**Sylwadau penodol a gafodd eu cynnwys:**

- Ysgolion ac ymarferwyr

    *Ni ddylai'r cynllun datblygiad staff fod yn rhan o'r CDY am nad yw'r cynllun datblygiad staff yn ddogfen statudol ar hyn o bryd.*

    *Rydym ni'n gwneud hynny'n barod.*

- Undebau athrawon a staff cymorth

  *Dyma'r math o wybodaeth sydd mewn CDY o safon uchel yn barod.*

  *Bydd yn ddefnyddiol i ysgolion weld yn glir beth yw'r gofynion statudol gofynnol.*

- Cyrff proffesiynol a chenedlaethol

  *Dylai ysgolion gael yr hyblygrwydd i bennu eu hamcanion eu hunain, sy'n deillio o setiau data.*

  *Rhaid i dargedau ar gyfer gwella fod yn rhai mesuradwy (lle bo'n briodol) ac yn ddigon heriol.*

  *Nid yw rheoliadau'n cynnwys nac yn cyfeirio at bwysigrwydd llais a chyfranogiad y disgybl.*

- Consortia ac awdurdodau lleol

  *Dylai monitro ac adrodd ar gynnydd y CDY fod yn eitem safonol ar yr agenda yn ystod [cyfarfodydd] rheolaidd y corff llywodraethu.*

  *Ni fyddai pennu fformat penodol o gymorth.*

- Arall

  *Ni ddylid cael gofyniad gofynnol…dylai'r CDY yn awtomatig fod yn ddogfen ysgol gyflawn, holl gynhwysfawr.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Bydd y Rheoliadau'n mynd rhagddynt fel y cawsant eu drafftio.

**Cwestiwn 3** – Ydych chi’n cytuno y dylai’r CDY ddatgan, fel isafswm, gynllun manwl ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol a chynllun bras ar gyfer y ddwy flynedd academaidd ganlynol? (Gweler adran 5.)

| **Cytuno** | **Anghytuno** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** |
|---|---|---|
| | | |
| 14 | 1 | 9 |
| 58% | 4% | 38% |

**Trosolwg o’r ymatebion:**

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn. Nododd un ymatebydd, fodd bynnag, y gallai’r union gyfnod sydd dan sylw yn y ddogfen ddibynnu ar yr ysgol unigol. Roedd un o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno yn awgrymu bod angen i'r amserlen gael ei hystyried yn fanwl, yn enwedig yng nghyswllt y gofyniad bod y CDY yn cynnwys “blaenoriaethau gwella’r ysgol...ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol”. Awgrymodd yr ymatebwr fod angen i'r CDY fod yn ei le ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ac felly mae angen ei gymeradwyo yn ystod tymor yr haf cyn y flwyddyn academaidd newydd.

Gwnaeth pedwar ymatebydd sylwadau ar argaeledd ac amseriad y wybodaeth gyllidebol a'r cyfyngiadau a allai ddod yn sgil hynny ar gynllunio tymor hwy. Yn ôl un ymatebydd a oedd yn anghytuno, er eu bod yn cytuno â'r angen i gynlluniau gael eu sefydlu am dair blynedd, teimlent fod angen sicrhau cyllideb bendant yn gyntaf.

O'r ymatebwyr nad oeddynt yn cytuno nac yn anghytuno, dywedodd un fod angen i'r system gyfan [cyllid a data] gael ei halinio â'r cylch CDY i osgoi dyblygu. Teimlai dau ymatebydd ei bod yn bwysig pwysleisio'r angen i gadw llygad cyson ar dargedau’r CDY a'u haddasu’n rheolaidd. Teimlai un ymatebydd y gallai o bosibl fod mwy o gyfle a hyblygrwydd ac nid oedd yn sicr a oedd tair blynedd yn gyfnod digon hirdymor i roi sylw i bopeth o'r dechrau i'r diwedd. Teimlai un arall fod angen egluro ymhellach gynnwys gofynnol y CDY amlinellol (blynyddoedd dau a thri).

**Sylwadau penodol a gafodd eu cynnwys:**

- Ysgolion ac ymarferwyr

*Credwn fod cael cynllun tair blynedd yn gwneud synnwyr.*

- Undebau athrawon a staff cymorth

*Cytunwn i’r carn â’r cynnig.*

*Dyma gynnig call sy’n adlewyrchu ymarfer gorau ac effeithlon mewn ysgolion.*

*Mae cynllunio i’r  tymor hwy a chanolig yn nodweddu arweinyddiaeth effeithlon mewn ysgolion.*

*Mae [angen i] ysgolion gael gwarant o gyllid sydd wedi’i glustnodi ar sail tair blynedd gyfatebol.*

- Cyrff proffesiynol a chenedlaethol

*Dylai’r tair blynedd a awgrymwyd fod yn lleiafswm.*

*Mae’r gofyniad am gynllun manwl ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol a chynllun amlinellol ar gyfer y ddwy flynedd academaidd nesaf fel pe bai’n ffordd gall ac addas o fynd o’i chwmpas hi.*

- Consortia ac awdurdodau lleol

*Gallai cynllun manwl y tu hwnt i'r flwyddyn academaidd fod yn wrthgynhyrchiol o bosibl yn sgil y cylch hunanwerthuso parhaus a fyddai’n nodi blaenoriaethau newydd.*

*Mae cywirdeb  manwl y cynllun yn bwysicach na’i hyd.*

- Arall

*Pan mae ysgolion am wella safonau neu gyflwyno polisi newydd, mae un flwyddyn academaidd yn gyfnod rhy fyr i sefydlu ymarfer a mesur llwyddiant.*

*Mae’n bwysig bod gan ysgolion weledigaeth hirdymor.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae diffiniad o’r “flwyddyn addysg gyfredol” wedi ei gynnwys yn y Rheoliadau er mwyn ychwanegu mwy o eglurder. Ceir gwybodaeth bellach ar gynnwys gofynnol y cynllun manwl a’r cynllun amlinellol yn y ddogfen ganllaw a fydd yn cyd-fynd â’r Rheoliadau.

**Cwestiwn 4** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

**Trosolwg o'r ymatebion:**

Roedd tri o'r ymatebwyr yn teimlo y dylai'r geiriad gael ei ddiwygio i gryfhau rôl y pennaeth mewn perthynas â pharatoi a diwygio'r CDY. Er mai'r corff llywodraethu sy'n berchen ar y ddogfen, awgrymodd un y dylai rôl y pennaeth wrth arwain a diwygio'r CDY gael ei chryfhau; teimlai un arall y dylai'r CDY gael ei baratoi a'i ddiwygio gyda'r corff llywodraethu yn gweithio mewn partneriaeth â'r pennaeth; aeth un arall ymhellach gan awgrymu y dylai'r gwaith o baratoi'r CDY gael ei wneud gan yr uwch dîm arweinyddiaeth yn hytrach na'r corff llywodraethu.

Roedd dau ymatebydd yn teimlo y dylai ysgolion gwannach ac ysgolion cryfach weithio ar y cyd ac esblygu dros nifer o flynyddoedd.

Gofynnodd un ymatebydd am i eiriad y Rheoliadau gael ei newid fel bod y gofyniad i ddiwygio'r CDY unwaith bob deuddeg mis yn gliriach.

**Sylwadau penodol a gafodd eu cynnwys:**

- Ysgolion ac ymarferwyr

  *Mae'n afrealistig fframio'r gofynion er mwyn gosod [y] byrdwn ar y corff llywodraethu i baratoi ac ymgynghori ar y CDY.*

  *Byddai canllawiau ar sut y gellid ymgynghori'n iawn [â disgyblion a rhieni] yn ddefnyddiol.*

- Undebau athrawon a staff cymorth

  *Byddai'n ddigon gwneud rhieni'n ymwybodol o'r cynllun a'i flaenoriaethau, a thynnu sylw at sut y gallent gefnogi'r ysgol i gyflawni'r blaenoriaethau hynny.*

  *Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud hi'n glir yn ei chanllawiau bod gan ysgolion ddisgresiwn yn y ffordd maen nhw'n llunio a chyflwyno eu cynlluniau.*

- Cyrff proffesiynol a chenedlaethol

  *Yr un ddogfen yn union fyddai'r CDY a'r cynllun gweithredu ar ôl arolwg (PIAP).*

*Rhaid i CDY gynnwys athrawon cyflenwi sy'n cyflenwi am gyfnod hir o fewn cwmpas [y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad staff] os yw i godi lefel yr addysgu o fewn ysgol.*

*Mae hwn yn gam positif.*

- Consortia ac awdurdodau lleol

*Cefnogwn yr egwyddor o gael cynllun gwaith hygyrch sydd ar gael i lywodraethwyr a staff.*

*Trylwyredd y broses hunanwerthuso, sef yr hyn ddylai fod yn sail i'r CDY - dyna yw'r allwedd i greu a gweithredu CDY da yn effeithiol.*

- Arall

*Hoffwn weld y corff llywodraethu yn cael ei ddwyn i gyfrif  a bod yn rhaid i lywodraethwyr fod yn rhan o'r broses gynllunio a monitro.*

*Mae'r CDY yn adlewyrchu beth mae'r ysgol yn ei wneud a dylai popeth sydd ynddo, mewn rhyw ffordd, wneud yr ysgol yn sefydliad addysg gwell gan wella'i berfformiad academaidd.*

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae'r Rheoliadau wedi'u diwygio i egluro'r gofyniad bod yn rhaid i'r CDY gael ei adolygu o leiaf unwaith bob deuddeg mis.

## Y camau nesaf

Mae llawer o'r awgrymiadau a'r sylwadau a ddaeth i law yn ymwneud â dehongliad manwl o'r Rheoliadau a bydd y rhain yn cael eu cynnwys a/neu eu hegluro yn y canllaw a fydd yn cael ei gyhoeddi i gyd-fynd â'r Rheoliadau.

Bydd y Rheoliadau drafft yn cael eu diwygio i adlewyrchu'r ymatebion i'r ymgynghoriad, fel y nodir hwy uchod, ac yna byddant yn symud ymlaen drwy broses ddeddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Atodiad: Rhestr o'r ymatebwyr

Anhysbys

Anhysbys

Ashley Pascoe

Comisiynydd Plant Cymru

Comisiynydd y Gymraeg

Consortiwm Canol De Cymru (x2)

Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Llanisien

Cydffederasiwn Recriwtio a Chyflogaeth

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL)

Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)

Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)

Estyn

Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig

Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS)

Llywodraethwyr Cymru

Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)

Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) Cymru

Vynor Hill

Ysgol Cil-y-coed

Ysgol Dyffryn Ogwen

Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd St Joseph